Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Arweinydd Tîm – Gweithrediadau Gwastraff a Rheoli'r Fflyd** |
| **Lleoliad:** | **Gweithio ystwyth** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol** |
| **Rhif y Swydd:** | **BG14043** |
| **Cyflog:** | **Gradd 9 (£42,403 – £46,464 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Parhaol** |

**Crynodeb o'r Swydd**

Mae cyfle wedi codi o fewn y Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer arweinydd tîm i reoli Gweithrediadau Gwastraff a Gwasanaethau Rheoli Fflyd yr awdurdod o fewn yr Is-adran Gwasanaethau Cymdogaeth.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus sicrhau bod gwasanaethau effeithlon ac effeithiol yn cael eu gweithredu sy'n cyflawni yn erbyn cynlluniau busnes yr adran a'r is-adran, amcanion gwella corfforaethol y gyfarwyddiaeth, ac o ran gyrru'r agenda gydweithio yn ei blaen gydag awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau partner allweddol.

**Hysbyseb Lawn**

Bydd rheoli Gweithrediadau Gwastraff a Gwasanaethau Rheoli Fflyd y cyngor yn cynnwys:

- Rheoli a datblygu arbenigedd yr adran mewn gweithrediadau gwastraff
- Rheoli a datblygu arbenigedd yr adran ym maes rheoli fflyd
- Paratoi adroddiadau monitro ar gyfer y Tîm Uwch-reolwyr / y Tîm Rheoli Corfforaethol / y Pwyllgor Craffu a'r weithrediaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd arwain ar reoli prosiect gwasanaethau trafnidiaeth y cyngor o ran newid i fflyd carbon isel, a datblygu, cynnal a rheoli arbenigedd yr adran mewn casgliadau sbwriel ac ailgylchu.

Mae'r adran yn gweithio ar hyn o bryd gyda WRAP a phartneriaethau lleol i gynnal adolygiad o arferion gweithredol, felly gallai newidiadau ddigwydd yn y dyfodol i ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r ymgeisydd llwyddiannus o ganlyniad.

**Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau:** | **Dydd Iau 9 Mai 2024 - 12:00am, canol nos** |
| **Dyddiad y Cyfweliad:** | **Dydd Iau 23 Mai 2024** |